PRIFFYRDD, CYMRU

# 2013 Rhif. 21

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

## GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (AMRYW FFYRDD, HARBWR PORTHCAWL, PEN-Y-BONT AR OGWR) 2013

*Gwnaed* *25 Gorffennaf 2013*

*Yn dod i rym* *1 Awst 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1).

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Amryw Ffyrdd, Harbwr Porthcawl, Pen-y-bont ar Ogwr) 2013.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi iddo;

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan o'r enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Amryw Ffyrdd, Harbwr Porthcawl, Pen-y-bont ar Ogwr) 2013" sydd gyda'r Gorchymyn hwn.

ystyr "Deddf 1990" *("the 1990 Act")* yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

(3) Bydd y Gorchymyn hwn yn weithredol ar y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud ei gyhoeddi yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

**Cau Prifffordd**

**2.** Yn amodol ar erthyglau 3, 4, 5 a 6, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o brifffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir gyda llinellau rhesog sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni fod angen cau prifffordd er mwyn gallu datblygu yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 19 Hydref 2012 o dan gyfeirnod P/12/605/BCB, ac a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r

Gorchymyn hwn.

**Prifffordd(Priffyrdd) newydd / wedi ei(eu) gwella**

**3.** Crëir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y priffyrdd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 ac a ddangosir gan ddotwaith ar y plan a adneuwyd, a'r priffyrdd y gwneir gwelliannau iddynt a ddisgrifir yn Atodlen 3, ac a ddangosir â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd, a byddant, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980**(2)**, yn briffyrdd sydd i'w cynnal ar draul y pwrs cyhoeddus, a'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd ar eu cyfer.

**Y Darpariaethau Angenrheidiol neu Hwylus cyn Cau'r Priffyrdd ac er mwyn Darparu neu Wella'r Priffyrdd**

**4.** Ni chaniateir cau'r rhannau o'r brifffordd yn Atodlen 1:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu'r priffyrdd newydd a gwell a ddisgrifir yn Atodlenni 2 a 3 er boddhad rhesymol y Cyngor;

(b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos y modd y caeir y rhannau o'r brifffordd;

(c) hyd nes y bydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 4 wedi dechrau, a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o'r rheidrwydd i gau'r priffyrdd er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; ac

(ch) hyd nes y bydd y Cyngor wedi cadarnhau'n ysgrifenedig fod paragraffau (a), (b) ac (c) wedi eu bodloni.

**Ymgymerwyr a Darparwyr Statudol**

**5.** Pan fo gan ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y brifffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn i'r ardal o brifffordd (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o ran y cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r brifffordd.

**Cyfnod Parhad y Gorchymyn hwn**

**6.** Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 4 wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan 3 o Ddeddf 1990 fel cyfnod parhad y caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol pan ddaw'r caniatâd

cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Gorffennaf 2013

*R Morgan*

**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1990 p.8. Yn rhinwedd O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(2)** 1980 p.66.

## YR ATODLENNI

### (Bras amcan yw pob mesuriad)

### ATODLEN 1

### Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a elwir Portway (C254) sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd o'i chyffordd â Rhodfa'r Dwyrain (ffordd ddiddosbarth). Mae ei bellter ar y mwyaf yn 70 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 9 o fetrau ac mae ei arwynebedd cyfan yn 609 o fetrau sgwâr ac fe'i dangosir ag '1' ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a elwir Portway (C254) gan gynnwys rhan o Gylchfan Portway (A4106) sy'n ymestyn i gyfeiriad gogledd o bwynt sy'n gyfagos i'r fynedfa ar lwybr troed i 'The Square' a 'Glamorgan Holiday Home'. Mae ei bellter ar y mwyaf yn 318 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 120 o fetrau sgwâr ac mae ei arwynebedd cyfan yn 14,894 o fetrau sgwâr ac fe'i dangosir â '2' ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ddienw (C255) sy'n ymestyn i gyfeiriad y dwyrain o Gylchfan Portway i Rodfa'r Dwyrain (ffordd ddiddosbarth). Mae ei bellter ar y mwyaf yn 143 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 11 o fetrau ac mae ei arwynebedd cyfan yn 1,028 o fetrau

sgwâr ac fe'i dangosir â '3' ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a elwir Rhodfa'r Dwyrain (ffordd ddiddosbarth) sy'n ymestyn i gyfeiriad y de orllewin o bwynt 20 o fetrau i'r de orllewin o ymyl deheuol ei chyffordd â Rhodfa Sandy Bay. Mae ei bellter ar y mwyaf yn 243 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 7 o fetrau ac mae ei arwynebedd cyfan yn 1,198 o fetrau sgwâr ac fe'i dangosir â '4' ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a elwir Rhodfa'r Dwyrain (ffordd ddiddosbarth) sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd ddwyrain yn gyffredinol o'i chyffordd â Portway (C254). Mae ei bellter ar y mwyaf yn 180 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 17 o fetrau ac mae ei arwynebedd cyfan yn 2,540 o fetrau sgwâr ac fe'i dangosir â '5' ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 2

**<u>Disgrifiad o'r priffyrdd newydd sydd i'w darparu</u>**

Darn newydd o Rodfa'r Dwyrain (ffordd ddiddosbarth) sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin o bwynt 119 o fetrau i'r gogledd ddwyrain o gornel ogledd ddwyreiniol mur harbwr Porthcawl i gyplysu â Portway (C254). Mae ei bellter ar y mwyaf yn 108 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 14 o fetrau ac mae ei arwynebedd cyfan yn 1,486 o fetrau sgwâr ac fe'i dangosir ag 'A' ar y plan a adneuwyd.

Darn newydd o briffordd yn gyfagos â'r gylchfan newydd wrth gyffordd Rhodfa'r Dwyrain (ffordd ddiddosbarth) sy'n ymestyn i gyfeiriad y dwyrain i ffurfio pen stwmp ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Mae ei bellter ar y mwyaf yn 54 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 42 o fetrau ac mae ei arwynebedd cyfan yn 915 o fetrau sgwâr ac fe'i dangosir â 'B' ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 3

**<u>Disgrifiad o'r priffyrdd sydd i'w gwella</u>**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a elwir Portway (C254) sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd ddwyrain o bwynt sy'n gyfagos i'r fynedfa ar lwybr troed i 'The Square' a 'Glamorgan Holiday Home'. Mae ei bellter ar y mwyaf yn 50 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 17 o fetrau ac mae ei arwynebedd cyfan yn 649 o fetrau sgwâr ac fe'i dangosir ag 'AA' ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a elwir Cylchfan Portway (A4106) sy'n ymestyn i gyfeiriad y de o bwynt 28 o fetrau i'r gogledd ddwyrain o gornel ogledd ddwyreiniol Gorsaf Heddlu Porthcawl, i

ddarparu cyffordd sy’n gylchfan sy’n cysylltu ‘r A4106, Lias Road a Ffordd Gyswllt y Gorllewin a arfaethir. Mae ei bellter ar y mwyaf yn 98 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 65 o fetrau ac mae ei arwynebedd cyfan yn 4,761 o fetrau sgwâr ac fe’i dangosir â ‘BB’ ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ddienw (C255) sy’n ymestyn i gyfeiriad y dwyrain o gornel de ddwyreiniol Cylchfan Gorsaf Heddlu Porthcawl i Rodfa’r Dwyrain (ffordd ddiddosbarth), i ddarparu ffordd gyswllt newydd. Mae ei bellter ar y mwyaf yn 172 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 32 o fetrau ac mae ei arwynebedd cyfan yn 2,974 o fetrau sgwâr ac fe’i dangosir ag ‘CC’ ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a elwir Rhodfa’r Dwyrain (ffordd ddiddosbarth) sy’n ymestyn i gyfeiriad y de o’i chyffordd â’r ffordd ddienw (C255) i’r adran newydd o Rodfa’r Dwyrain (ffordd ddiddosbarth) a ddangosir ag ‘A’ ar y plan a adneuwyd, ac sy’n cynnwys cyswllt o’i chyffordd â’r ffordd ddienw (C255) i gyfeiriad y gogledd. Mae ei bellter ar y mwyaf yn 420 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 20 o fetrau ac mae ei arwynebedd cyfan yn 6,703 o fetrau sgwâr ac fe’i dangosir â ‘DD’ ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 4

## Y Datblygiad

Glan yr Harbwr, Porthcawl, Glan y Dŵr, Porthcawl.
Adfywio defnydd cymysg o Lan yr Harbwr, Porthcawl gan gynnwys darparu unedau manwerthu/masnachol newydd, unedau preswyl, defnydd cymunedol, gwelliannau yn y maes cyhoeddus, adeiladu ar gyfer hamdden, mannau parcio a mynedfeydd mewnol cysylltiedig.

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

## GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (AMRYW FFYRDD, HARBWR PORTHCAWL, PEN-Y-BONT AR OGWR) 2013

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o’r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau’r rhannau o’r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Hysbysiad hwn, i ddarparu ar gyfer y rhannau newydd o briffordd fel a ddisgrifir yn Atodlen 2 ac i wella’r rhannu o briffordd fel a ddisgrifir yn Atodlen 3.

Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i gael ei wneud. Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Amryw Ffyrdd, Harbwr Porthcawl, Pen-y-Bont Ar Ogwr) 2013 ("y Gorchymyn"), os y'i gwneir, yn peidio â bod yn effeithiol os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1037440.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

o fewn 6 wythnos i 1 Awst 2013, wneud cais at y diben hwnnw i'r Uchel Lys.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (Detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Anstatudol', 'Trafnidiaeth Cymru', 'Gorchmynion Cau TCPA', '2013').

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

*M D Burnell*

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

### ATODLEN 1

**Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a elwir Portway (C254) sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd o'i

chyffordd â Rhodfa’r Dwyrain (ffordd ddiddosbarth). Mae ei bellter ar y mwyaf yn 70 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 9 o fetrau ac mae ei arwynebedd cyfan yn 609 o fetrau sgwâr ac fe’i dangosir ag ‘1’ ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a elwir Portway (C254) gan gynnwys rhan o Gylchfan Portway (A4106) sy’n ymestyn i gyfeiriad y gogledd o bwynt sy’n gyfagos i’r fynedfa ar lwybr troed i ‘The Square’ a ‘Glamorgan Holiday Home’. Mae ei bellter ar y mwyaf yn 318 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 120 o fetrau sgwâr ac mae ei arwynebedd cyfan yn 14,894 o fetrau sgwâr ac fe’i dangosir â ‘2’ ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ddienw (C255) sy’n ymestyn i gyfeiriad y dwyrain o Gylchfan Portway i Rodfa’r Dwyrain (ffordd ddiddosbarth). Mae ei bellter ar y mwyaf yn 143 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 11 o fetrau ac mae ei arwynebedd cyfan yn 1,028 o fetrau sgwâr ac fe’i dangosir â ‘3’ ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a elwir Rhodfa’r Dwyrain (ffordd ddiddosbarth) sy’n ymestyn i gyfeiriad y de orllewin o bwynt 20 o fetrau i’r de orllewin o ymyl deheuol ei chyffordd â ‘Rhodfa Sandy Bay’. Mae ei bellter ar y mwyaf yn 243 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 7 o fetrau ac mae ei arwynebedd cyfan yn 1,198 o fetrau sgwâr ac fe’i dangosir â ‘4’ ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a elwir Rhodfa’r Dwyrain (ffordd ddiddosbarth) sy’n ymestyn i gyfeiriad y gogledd ddwyrain yn gyffredinol o’i chyffordd â Portway (C254). Mae ei bellter ar y mwyaf yn 180 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 17 o fetrau ac mae ei arwynebedd cyfan yn 2,540 o fetrau sgwâr ac fe’i dangosir â ‘5’ ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 2

**<u>Disgrifiad o'r priffyrdd newydd sydd i'w darparu</u>**

Darn newydd o Rodfa’r Dwyrain (ffordd ddiddosbarth) sy’n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin o bwynt 119 o fetrau i’r gogledd ddwyrain o gornel ogledd ddwyreiniol mur harbwr Porthcawl i gyplysu â Portway (C254). Mae ei bellter ar y mwyaf yn 108 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 14 o fetrau ac mae ei arwynebedd cyfan yn 1,486 o fetrau sgwâr ac fe’i dangosir ag ‘A’ ar y plan a adneuwyd.

Darn newydd o briffordd yn gyfagos â’r gylchfan newydd wrth gyffordd Rhodfa’r Dwyrain (ffordd ddiddosbarth) sy’n ymestyn i gyfeiriad y dwyrain i ffurfio pen stwmp ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Mae

ei bellter ar y mwyaf yn 54 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 42 o fetrau ac mae ei arwynebedd cyfan yn 915 o fetrau sgwâr ac fe'i dangosir â 'B' ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 3**

**Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w gwella**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a elwir Portway (C254) sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd ddwyrain o bwynt sy'n gyfagos i'r fynedfa ar lwybr troed i 'The Square' a 'Glamorgan Holiday Home'. Mae ei bellter ar y mwyaf yn 50 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 17 o fetrau ac mae ei arwynebedd cyfan yn 649 o fetrau sgwâr ac fe'i dangosir ag 'AA' ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a elwir Cylchfan Portway (A4106) sy'n ymestyn i gyfeiriad y de o bwynt 28 o fetrau i'r gogledd ddwyrain o gornel ogledd ddwyreiniol Gorsaf Heddlu Porthcawl, i ddarparu cyffordd sy'n gylchfan sy'n cysylltu'r A4106, Lias Road a Ffordd Gyswllt y Gorllewin a arfaethir. Mae ei bellter ar y mwyaf yn 98 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 65 o fetrau ac mae ei arwynebedd cyfan yn 4,761 o fetrau sgwâr ac fe'i dangosir â 'BB' ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ddienw (C255) sy'n ymestyn i gyfeiriad y dwyrain o gornel de ddwyreiniol Cylchfan Gorsaf Heddlu Porthcawl i Rodfa'r Dwyrain (ffordd ddiddosbarth), i ddarparu ffordd gyswllt newydd. Mae ei bellter ar y mwyaf yn 172 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 32 o fetrau ac mae ei arwynebedd cyfan yn 2,974 o fetrau sgwâr ac fe'i dangosir ag 'CC' ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd a elwir Rhodfa'r Dwyrain (ffordd ddiddosbarth) sy'n ymestyn i gyfeiriad y de o'i chyffordd â'r ffordd ddienw (C255) i'r adran newydd o Rodfa'r Dwyrain (ffordd ddiddosbarth) a ddangosir ag 'A' ar y plan a adneuwyd, ac sy'n cynnwys cyswllt o'i chyffordd â'r ffordd ddienw (C255) i gyfeiriad y gogledd. Mae ei bellter ar y mwyaf yn 420 o fetrau, ei led ar y mwyaf yn 20 o fetrau ac mae ei arwynebedd cyfan yn 6,703 o fetrau sgwâr ac fe'i dangosir â 'DD' ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 4**

**Y Datblygiad**

Glan yr Harbwr, Porthcawl, Glan y Dŵr, Porthcawl.
Adfywio defnydd cymysg o Lan yr Harbwr, Porthcawl gan gynnwys darparu unedau manwerthu/masnachol newydd, unedau preswyl, defnydd cymunedol,

gwelliannau yn y maes cyhoeddus, adeiladu ar gyfer hamdden, mannau parcio a mynedfeydd mewnol cysylltiedig, yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan y Cyngor o dan Ran 3 o Ddeddf 1990, ar 19 Hydref 2012 o dan gyfeirnod P/12/605/BCB.